**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-VG-1633-22

Paul Davies Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
SeneddEconomi@senedd.wales

10 Mehefin 2022

Annwyl Paul,

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Ymestyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) 2022**

Ysgrifennais atoch ar 9 Mai yn dilyn fy natganiad llafar, yn amgáu gohebiaeth rhwng Gweinidogion Cymru a Gweinidogion y DU ynghylch eu penderfyniad i ohirio archwiliadau SPS oedd i'w cyflwyno ar 1 Gorffennaf.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cynnig gwneud yr Offeryn Statudol a enwir uchod ("Rheoliadau 2022") o dan bwerau a roddwyd gan Erthygl 144(6) a pharagraff 2 o Atodiad 6 o Reoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau bod cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion yn cael eu defnyddio.

Mae Rheoliadau 2022 yn diwygio:

- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Ymestyn Cyfnodau Trosiannol) 2021 i newid dyddiad gorffen y "cyfnod graddoli trosiannol" (fel y'i diffinnir ym mharagraff 2 o Atodiad 6 i Reoliad (UE) 2017/625) o 30 Mehefin 2022 i 31 Rhagfyr 2022;

- Rheoliad (UE) 2017/625 i:
    - allu arfer pwerau gwneud rheoliadau yn Erthyglau 53 a 54 o'r Rheoliad hwnnw yn ystod y cyfnod graddoli trosiannol, ac yn ei dro, galluogi pennu "gyfradd amlder briodol" (a ddiffinnir ym mharagraff 2 o Atodiad 6 i Reoliad (UE) 2017/625) ar gyfer rhai planhigion a chynhyrchion planhigion drwy gyfeirio at reoliadau a wneir gan ddefnyddio'r pwerau hynny;

    - dewis planhigion a chynhyrchion planhigion â blaenoriaeth uchel ar sail Erthygl 44(2) o'r Rheoliad hwnnw, sy'n pennu cyfradd amlder briodol y rheolaethau ar gyfer nwyddau nad ydynt yn cael eu cyflwyno wrth safleoedd rheoli ffiniau;

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasu Dros Dro) (Lloegr) (Ymadael â'r UE) 2020 i newid dyddiad gorffen yr ataliad dros dro ar y gofyn i baratoadau cig gael eu rhewi'n ddwfn pan gânt eu mewnforio i Loegr o aelod-wladwriaethau'r AEE, Ynysoedd Ffaro, yr Ynys Las neu'r Swistir o 30 Mehefin 2022 i 31 Rhagfyr 2022. Nid yw'r gwelliant y cyfeirir ato yn y pwynt bwled olaf uchod yn gymwys i Gymru. Fodd bynnag, bydd Gweinidogion Cymru yn cyflwyno Rheoliadau Paratoadau Cig (Cymru) (Diwygio) 2022 i wneud diwygiad cyfatebol.

Heb y gwelliannau hyn, o 1 Gorffennaf 2022, bydd yn rhaid i fusnesau mewnforio ac allforio ym Mhrydain Fawr a'r UE yn y drefn honno gydymffurfio â gofynion rheoli'r archwiliadau iechydol a ffytoiechydol (SPS) a fyddai fel arall yn dod yn weithredol. Mae Rheoliad (UE) 2017/625 sydd fel arall yn weithredol pan ddaw'r cyfnod graddoli trosiannol i ben yn darparu gofynion llymach, sy'n golygu, heb estyniad, fod angen i ni naill ai gael Safleoedd Rheoli Ffiniau dynodedig i wasanaethu pob porthladd neu roi’r gorau i fewnforio nwyddau SPS i Gymru drwy'r porthladd hwnnw.

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi fy mod yn rhoi fy nghaniatâd i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud Rheoliadau 2022 mewn perthynas â Chymru. Deallaf y cânt eu gosod gerbron y Senedd ar 8 Mehefin 2022 a byddant yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Bydd caniatáu i Defra ddeddfu ar ein rhan y tro hwn yn helpu i anfon negeseuon am ddefnyddio trefniadau diwygiedig yn gyson ledled Prydain Fawr, ac yn dangos i randdeiliaid ein bod yn barod i weithio'n adeiladol gyda Llywodraeth y DU, gan wahaniaethu pan fydd dadleuon cryf o ran Cymru i wneud hynny. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gweld unrhyw fygythion allai godi i’r setliad datganoli os bydd Defra’n deddfu ar ran Gweinidogion Cymru y tro hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, y Gweinidog Newid Hinsawdd a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy